# Cenn@d

MEHEFIN 30 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 18


## Cristnogion ac eglwysi yn ymgyrchu dros gyfnod Cynhadledd y G7

Yn dilyn Cynhadledd y G7, mae Aled Davies yn crynhoi rhai pigion o'r gynhadledd, ac yn adrodd ar ymdrechion eglwysi lleol yng Nghernyw i fynegi eu barn am faterion newid hinsawdd a diogelu iechyd pobl y byd.




Cynhaliwyd uwchgynhadledd y G7 eleni ar 11–13 Mehefin ym Mae Carbis, Cernyw. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yr oedd yr Arlywydd Justin Trudeau o Ganada, yr Arlywydd Emmanuel Macron o Ffrainc, y Canghellor Angela Merkel o'r Almaen, y Prif Weinidog Mario Draghi o'r Eidal, y Prif Weinidog Yoshihide Suga o Japan, y Prif Weinidog Boris Johnson ac Arlywydd America, Joe Biden.

Casgliad o arweinwyr llywodraethau rhai o genhedloedd cyfoethocaf y byd yw'r G7 ('Group of Seven'). Uwchgynhadledd 2021 oedd y 47fed cyfarfod i gael ei gynnal, lle cyfarfu prif weinidogion ac arlywyddion gwledydd y G7 i drafod problemau sy'n wynebu'r byd – gan gynnwys materion economaidd, argyfyngau iechyd a'r argyfwng hinsawdd.

Yn y gorffennol, mae uwchgynadleddau G7 wedi canolbwyntio ar faterion yn amrywio o ddileu dyledion ar gyfer gwledydd sy'n datblygu, argyfyngau iechyd fel HIV ac AIDS a bygythiadau i ddiogelwch byd-eang. Mae'r G7 yn gyfarfod pwysig yn fyd-eang oherwydd mai penaethiaid y llywodraethau sy'n mynychu'r uwchgynhadledd yw arweinwyr rhai o wledydd cyfoethocaf a mwyaf pwerus y byd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn un o ddau gynulliad o arweinwyr y byd fydd y Deyrnas Unedig yn eu cynnal eleni, ochr yn ochr â sgyrsiau hinsawdd COP26 ym mis Tachwedd. Mae Boris Johnson wedi dweud ei fod yn awyddus i ddefnyddio sgyrsiau hinsawdd G7 a COP26 i 'adeiladu'n ôl yn well' o bandemig y Coronafeirws a 'chreu dyfodol mwy gwyrdd, mwy llewyrchus'.

Mae'r nodiadau cryno ar gasgliadau'r G7 yn cynnwys dau benderfyniad allweddol a wnaed yno.

Mewn perthynas â Covid-19, penderfynwyd: 'rheoli a dileu effaith pandemig Covid-19, gan baratoi ar gyfer y dyfodol trwy drefnu ymdrech ryngwladol sylweddol i frechu'r byd cyfan, trwy gael cymaint o frechlynnau diogel i gynifer o bobl â phosibl mor gyflym â phosibl'. Mae cyfanswm ymrwymiadau'r G7 ers dechrau'r pandemig yn adduned i ddarparu dros ddau biliwn o ddosau o'r brechlyn i wledydd tlawd y byd.

Gwnaed datganiad hefyd ynghylch sefyllfa'r newid yn yr hinsawdd, a gwnaed yr adduned ganlynol: 'ein bod yn amddiffyn ein planed drwy gefnogi chwyldro gwyrdd sy'n creu swyddi, yn torri allyriadau (*emissions*) ac yn ceisio cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5 gradd. Rydym yn ymrwymo i sicrhau sero net erbyn 2050 fan bellaf, gan haneru ein hallyriadau ar y cyd dros y ddau ddegawd hyd at 2030; ac i warchod neu amddiffyn o leiaf 30 y cant o'n tir a'n cefnforoedd erbyn 2030. Rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddiogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'



### Llais yr eglwys leol

Roedd Cristnogion ac eglwysi yng nghanol bwrlwm y cyfarfodydd hyn, gan greu cysylltiadau â'r arweinwyr gwleidyddol a'r gymuned leol. Mewn datganiad, dywedodd Cymorth Cristnogol: 'Fe wnaeth yr eglwysi leisio'u barn yn glir. Pan gyhoeddwyd yn gynharach eleni fod y G7 yn dod i Fae Carbis, anogwyd eglwysi ac ysgolion ledled y sir i wneud "Tonnau Gobaith", a sicrhau eu bod yn cael sylw ar y newyddion lleol a chenedlaethol.

'Roedd y gweithgaredd hwn yn cynnwys mynd â'r neges mor agos at yr arweinwyr â phosibl. Fe aed ati i addurno eglwys y

(parhad ar y dudalen nesaf)


**Y Newidiadau a'r Digyfnewid** Tudalen 5

**Yr Ysbryd Glân – R Tudur Jones** Tudalen 6

**Ffydd a Diwylliant** Tudalen 7

### *Cristnogion ac eglwysi yn ymgyrchu dros gyfnod Cynhadledd y G7*

*(parhad o dudalen 1)*


plwyf ym Mae Carbis â "thonnau gobaith" a baneri Cymorth Cristnogol, a chafwyd cryn sylw ar y cyfryngau i hyn. Cafwyd cyfle hefyd i drefnu bod y ficer lleol a gweinidog yr Eglwys Fethodistaidd ym Mae Carbis yn arwain gwylnos ar y traeth yn yr union le yr oedd yr arweinwyr yn cyfarfod. Ailadroddwyd hyn gan grwpiau Cymorth Cristnogol lleol eraill – a gynhaliodd eu gwylnosau eu hunain i gofio'r rhai a gollwyd i Covid a galw am weithredu i wella iechyd a ffyniant i'n byd.'

Ar y dydd Sadwrn, cynhaliwyd cyfarfod eglwysig yn eglwys gadeiriol Truro gyda chadeirydd Cymorth Cristnogol, Rowan Williams, yn annerch y dorf dros Zoom am argyfyngau newid hinsawdd, dyled fyd-eang a'r argyfwng ledled y byd yn sgil pandemig Covid-19. Roedd yr eglwys gadeiriol hefyd yn gartref i un o uchafbwyntiau mwyaf cyffrous y penwythnos, sef cychwyn taith gyfnewid 'Rhwydwaith Hinsawdd Cristnogion Ifanc', gyda phobl ifanc dros Brydain yn cynnal taith gerdded o Gernyw i Glasgow, lle cynhelir cynhadledd bwysig COP 26 ym mis Tachwedd eleni (https://www.yccn.uk/). Fe wnaeth yr esgob lleol, yr Aelod Seneddol lleol a chynrychiolwyr eglwysig ym Mae Carbis eu hanfon ar eu taith gyda gwasanaeth oedd yn cynnwys negeseuon ar gyfiawnder a phwysigrwydd ymdrechu i ddiogelu newid hinsawdd gan gynrychiolwyr o Ynysoedd y Philipinas a Kenya. Maent bellach wedi dechrau cerdded i Glasgow ar gyfer y gynhadledd bwysig ym mis Tachwedd.

Gobeithio hefyd y bydd modd i ninnau yma yng Nghymru baratoi ar gyfer y gynhadledd hon, mewn gweddi a thrwy ymgyrchu gan roi pwysau ar wleidyddion ac arweinwyr byd. Wrth i 26 o arweinwyr o wledydd ledled y byd ddod at ei gilydd yn Glasgow, dyma gyfle gwirioneddol i ni roi pwysau i sicrhau dyfodol gwell i'n daear a'i thrigolion.




## 'Taid Bangor': dylanwad R. Tudur Jones arnaf



Dim ond dwy oed oeddwn i pan fu farw Taid Bangor – y Parchedig Brifathro R. Tudur Jones – ym mis Gorffennaf 1998. Er mai taid wnaeth fy medyddio yn Ebeneser, Caerdydd, ym 1995, dim ond un neu ddau atgof plentyn sydd gennyf ohono. Gan fy mod mor ifanc pan fu Taid farw, ni chefais gyfle i ddod i'w adnabod.

Er hynny, ers i mi brofi tröedigaeth a dod yn Gristion yng nghanol fy arddegau, yr wyf wedi dod i nabod Taid drwy gyfrwng ei lenyddiaeth. Pan oeddwn yn Gristion ifanc yn y chweched dosbarth, deuthum o hyd i gopi o *Ffydd yn y Ffau* (1973) yn stydi fy nhad. Yn y casgliad hwn o ysgrifau gwleidyddol, diwinyddol a llenyddol fy nhaid, cefais fy nghyflwyno iddo fel arweinydd Cristnogol eofn a gymhwysai ei ddiwinyddiaeth Galfinaidd goeth at heriau cymdeithasol a gwleidyddol yr ugeinfed ganrif.

Yna, yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, darllenais ei werslyfr poblogaidd, *Yr Ysbryd Glân* (1972). Yn nhudalennau'r llyfr hwn, cefais fy nghyflwyno i'm taid fel diwinydd praff a gymerai'r Beibl – Gair awdurdodol Duw – o ddifrif. Yn ddiweddarach, cefais hefyd flas ar ddarllen *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966) yn ogystal â *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (2 gyf., 1981–2), a ymddangosai ar restrau darllen y brifysgol. Rhoddodd y cyfrolau hyn gyflwyniad imi o'm taid fel hanesydd manwl yr Annibynwyr a gredai'n hyderus fod Duw – yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân – yn sofran dros hanes y ddynoliaeth.

Fy hoff ysgrif gan fy nhaid, fodd bynnag, yw'r erthygl honno a gyhoeddodd o dan y teitl 'Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith* (1970). Wrth i'm taid ddadansoddi natur diwinyddiaeth Ddiwygiedig y Cymry yn y traethawd hwn, cefais fy nghyflwyno iddo fel lladmerydd Calfiniaeth Cymru. Yn wir, yr ysgrif hon – yn ogystal â'r diweddar Barchedig Euros Wyn Jones – wnaeth fy ysbrydoli i astudio gweithiau diwinyddol George Lewis (1763–1822) fel testun ymchwil fy ngradd meistr.

Yn ddi-os, roedd y cyfrolau hyn yn falm llesol i Gristion o fyfyriwr yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain. Mewn oes ôl-Gristnogol lle'r oedd syniadau dyneiddiol ac ôl-fodernaidd yn cael dylanwad cynyddol ar fyfyrwyr, roedd ysgrifau a chyfrolau R. Tudur Jones yn chwa o awyr iach – er iddynt gael eu hysgrifennu ddegawdau yn ôl mewn Cymru go wahanol.

Trwy ddarllen gweithiau fy nhaid, cefais fy atgoffa o wirionedd, cysondeb a grym Cristnogaeth uniongred, ynghyd â gwacter, anghysondeb a gwendid y syniadau dyneiddiol hynny sydd bellach wedi cael dylanwad mor drwm ar feddylfryd y Cymry. Pan oedd llawer o'm cwmpas yn haeru mai llyfr amherthnasol a hen ffasiwn oedd y Beibl, cefais fy ysbrydoli gan hyder sicr fy nhaid yn y Beibl fel Gair digyfnewid Duw. Trwy'r Gair pwerus a dibynadwy hwn mae Duw yn parhau i siarad â dynion a merched heddiw: 'gallwn ddarllen y Beibl yn hyderus. Nid yw'n methu yn y bwriad a ymgorfforodd Duw ynddo. Gallwn ymddiried ein heneidiau i'w dystiolaeth' (*Yr Ysbryd Glân,* t. 46).

Mewn gair, felly, er na chefais gyfle i ddod i adnabod Taid Bangor, cafodd ddylanwad pwysig arnaf drwy'r cyfrolau a'r ysgrifau hynny a adawodd ar ei ôl. Yn wir, bu ei weithiau yn gyfrwng i'm haeddfedu fel Cristion ac yn fodd i gadarnhau fy ffydd yn fy Arglwydd a'm Gwaredwr, Iesu Grist. Yr wyf yn awr yn cael y fraint o wasanaethu Duw fel gweinidog Eglwys Seion, Aberystwyth: eglwys lle bu taid hefyd yn weinidog arni rhwng 1948 a 1950. Diolch i Dduw amdano ac am ei ddefnyddio er clod i'w enw Ef yng Nghymru.

*Gwilym Tudur*
*Aberystwyth*